



Strydoedd Fawr 2031:

Mae canol trefi a dinasoedd yn gipolygon ar ein heconomi a'n cymdeithas ond caiff llawer iawn o'r penderfyniadau polisïau sy'n effeithio arnynt eu gwneud heb fawr o ystyriaeth, gan ganolbwyntio ar sectorau penodol neu ranbarthau ehangach yn hytrach na gwneud penderfyniadau gwirioneddol ar sail lleoedd. Mae pobl Cymru yn haeddu strydoedd mawr llewyrchus mewn lleoedd y maent yn falch o fyw ynddynt, gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw - lleoedd sy'n hygyrch, yn ddeniadol ac yn ddiddorol, lle all busnesau ddatblygu a ffynnu ochr yn ochr â defnyddwyr y gymuned.

I gyflawni hyn oll **mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru:**

Gymryd datrys ardrethi busnes o ddifrif:

Bydd unrhyw fusnes mewn adeilad ffisegol yn atebol am ardrethi busnes ond mae'r stryd fawr yn cario baich anghymesur wrth ystyried y dreth hon a hynny wrth i fusnesau sy'n darparu ychydig i ddim o werth cymunedol ysgwyddo baich mwy ysgafn. Mae dros hanner yr adeiladau y codir ardrethi busnes arnynt yng Nghymru yn destun i ryw lefel o ryddhad, dyma arwydd diamheuol o fodel toredig a chost aruthrol i gronfa'r cyhoedd. Mae'r trethiant hwn sydd yn hen ac yn amherthnasol bellach, nad yw'n gysylltiedig â'r gallu i dalu, yn gorfodi busnesau i symud o'r stryd fawr ac yn cynyddu anghymhelliad. Archwiliad manwl sydd ei angen ar ardrethi busnes, nid mân newidiadau. Dylai dull modern at ardrethi busnes gefnogi busnesau stryd fawr bywiog o bob sector, gan gymell lleoli mewn ardaloedd trefol aml-swyddogaeth dros barciau manwerthu a busnes sy'n dibynnu ar geir, yn ogystal â chefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Darparu ymyrraeth stryd fawr ragweithiol a phenodol:

Nid yn unig casgliadau o adeiladau ydi strydoedd mawr bywiog a llewyrchus, maent yn fannau gweithredol sy'n cael eu defnyddio'n gyson. Felly nid meithrin yw'r unig ffordd o gefnogi'r strydoedd mawr hynny - dylai

Llywodraeth nesaf Cymru gyfeirio cyllid refeniw penodol at brosiect pwrpasol i gefnogi datblygu strydoedd mawr lleol bywiog er mwyn cefnogi cyfraniadau cyfalaf polisïau parhaus fel Canol Trefi yn Gyntaf. Mae adolygiadau eang o gynlluniau adfywio canol trefi, fel yr un a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn 2021, wedi tynnu sylw at yr angen am gyllid refeniw ar gyfer cefnogi prosiectau stryd fawr i fynd i'r afael â chapasiti staff a phrinder sgiliau. Allan o'r 13 cronfa adfywio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 2014 a 2023, dim ond dau oedd yn cynnwys cyllideb refeniw. Nid oes dim pwrpas mewn meithrin yn gyson heb ddatblygu'r capasiti i wneud hynny.

Ystyried pwerau cymunedol go iawn:

Mae strydoedd mawr pobl leol yn bwysig iddynt ar lefel emosiynol ond mae gan Gymru'r gyfres wanaf o bwerau yn y DU i alluogi cymunedau gymryd rheolaeth dros adeiladau pwysig ar eu strydoedd mawr a hynny heb ddim hawl cymunedol i gynnig na phrynu a dim pwerau arwerthiant rhentu stryd fawr. Gellir rhoi'r cyllid Balchder mewn Lleoedd a ariennir gan y Llywodraeth Cymru ar waith ar gyfer asedau prynu yn Lloegr ar gyfer y cymunedau sy'n ymwneud, ond nid oes gan ein cymunedau yng Nghymru'r cyfleoedd hynny. Bydd y dulliau priodol yn wahanol i Gymru o gymharu â Lloegr a'r Alban ond dylai'r dulliau hynny gael eu harchwilio a'u datblygu gan Lywodraeth nesaf Cymru.

Cadw'r momentwm ar drafnidiaeth gyhoeddus:

Er nad yw rheilffordd yn fater datganoledig yng Nghymru, mae gweinyddiaethau blaenorol wedi ymrwymo nifer sylweddol o arwain i ddatblygu'r rhaglen Metro De Cymru sy'n cael effaith drawsnewidiol ar hygyrchedd Caerdydd. Mae'n hanfodol bwysig ar gyfer bywiogrwydd a hyfywedd yn y dyfodol nid yn unig yng nghanol Caerdydd, ond mewn strydoedd mawr ar draws Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd, bod Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau â'i chefnogaeth ragweithiol o'r prosiect hwn.

Caerdydd AM BYTH yw ardal gwella busnes (AGB) canol dinas Caerdydd, sy'n cynrychioli dros 800 o fusnesau sy'n masnachu yn yr ardal. Am ragor o wybodaeth ewch i www.forcardiff.com neu cysylltwch â info@forcardiff.com